

Awgrymiadau da i rieni/gofalwyr sy'n helpu dysgwyr gyda dysgu ar-lein yn Hwb



1. Mae gan bob dysgwr yng Nghymru enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb y gall ei ysgol eu darparu. Y lle gorau ar gyfer cymorth yw eich ysgol, ond mae gan Hwb ddesg gymorth ar gyfer ymholiadau na all eich ysgol eu datrys.
2. Gall ysgol ddewis defnyddio gwahanol rannau o Hwb ar gyfer dysgu ar-lein e.e. *Google Classroom*, *Microsoft 365 (Teams gan amlaf)*, *Hwb Dosbarthiadau* neu *J2e*. Mae pob un o'r uchod ar gael trwy'r un enw defnyddiwr a chyfrinair Hwb.



Google Classroom



Microsoft Teams



Hwb Dosbarthiadau




J2e

3. Mae gan bob dysgwr gyfrif e-bost Outlook. Yr ysgolion sy'n penderfynu a all dysgwyr anfon/derbyn e-bost at/gan bobl y tu allan i'r ysgol.



e-bost Outlook

4. Er mwyn osgoi problemau a achosir gan wahanol gyfrifon sy'n cael eu defnyddio ar ddyfais a rennir, gallwch ddewis defnyddio porwr gwe penodol (*Chrome*, *Safari*, *Firefox*, *Edge* neu *Internet Explorer*) ar gyfer pob defnyddiwr (nad yw wedi'i ddefnyddio o'r blaen i fewngofnodi i gyfrifon Google neu Microsoft personol neu eraill). Efallai y bydd eich porwr yn cofio eich cyfrif a gall ddrwsu pethau pan fydd plentyn yn mewngofnodi gyda'i gyfrif Hwb. Er enghraifft, defnyddiwch *Chrome* ar gyfer dysgu yn y cartref ar Hwb os ydych chi fel arfer yn defnyddio *Edge* neu *Internet Explorer* (gweler pwynt 6). Mae rhai dyfeisiau yn eich galluogi i greu cyfrif defnyddiwr pwrpasol ar gyfer plentyn a allai helpu i gadw pethau ar wahân hefyd.
5. Mewngofnodwch i Hwb.llyw.cymru a chliciwch ar y botwm priodol o'r ddewislen y mae eich ysgol wedi dweud y bydd yn ei ddefnyddio.



6. Os ydych chi'n ymuno â sesiwn Google *Classroom* – gwiriwch eich bod chi/bod eich plentyn wedi mewngofnodi i gyfrif Hwb drwy glicio ar y llun proffil ac, os oes angen, newidiwch o gyfrif personol. Mae'n debygol y bydd eich ysgol eisoes wedi ychwanegu cyfrif eich dysgwr at yr ystafelloedd dosbarth priodol – ond os yw wedi darparu cod, cliciwch ar y botwm + ar frig y sgrin a'i roi yn y blwch.



Mae apiau ar gyfer offer *Google*, felly gall eich plentyn fewngofnodi'n uniongyrchol iddyn nhw os oes ganddo ei ddyfais ei hun (gwnewch yn siŵr ei fod yn allgofnodi os yw'r ddyfais yn cael ei rhannu gyda'i frawd neu chwaer).

7. Ar gyfer *J2e*: mewngofnodwch i Hwb.llyw.cymru a dewiswch y botwm *J2e* ar y ddewislen. Bydd hyn yn agor tab newydd yn eich porwr gyda'r ddewislen '*j2launch*'. Efallai fod ysgol eich plentyn wedi gosod tasgau yn y botwm *J2Homework* neu efallai ei bod wedi cadw ffeiliau yn yr adran '*shared files*'. Gall eich plentyn hefyd ddefnyddio offer a gweithgareddau *J2e* yn annibynnol, fel '*J2blast*' ar gyfer ymarfer sillafu a thablau lluos.

Mae ap *iOS* ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer *J2e* (o'r enw *J2launch*), felly gall eich plentyn fewngofnodi'n uniongyrchol iddo os oes ganddo ei ddyfais ei hun (gwnewch yn siŵr ei fod yn allgofnodi os yw'r ddyfais yn cael ei rhannu gyda'i frawd neu chwaer).

8. Os gofynnwyd i'ch plentyn ymuno â Teams, mae hwn ar gael fel rhan o *Office 365* ar y we. Cliciwch ar y botwm *Office 365* ac yna chwiliwch am eicon *Teams*. Fel arall, gallwch osod yr ap *Teams* yn rhad ac am ddim ar lawer o ddyfeisiau. Mewngofnodwch yn uniongyrchol gyda manylion ei gyfrif Hwb (gwnewch yn siŵr ei fod yn allgofnodi os yw'r ddyfais yn cael ei rhannu gyda'i frawd neu chwaer).



9. Mae rhai ysgolion yn defnyddio Hwb Dosbarthiadau. Cliciwch ar yr eicon Hwb Dosbarthiadau i fynd i mewn.



10. Yn ogystal â'r holl gymwysiadau sydd ar gael ar Hwb, fe welwch filoedd o adnoddau a allai fod o ddefnydd drwy glicio ar y botwm adnoddau (maent wedi'u hanelu'n bennaf at athrawon).

11. Gall defnyddwyr Hwb lawrlwytho Microsoft Office a Minecraft: EE yn rhad ac am ddim – ewch i Hwb.llyw.cymru/Microsoft i gael rhagor o fanylion.



12. Yn olaf, os hoffech chi gael rhagor o gymorth neu arweiniad, ewch i'r adran dysgu cyfunol ar dudalen hafan Hwb.llyw.cymru. Mae adran benodol ar gyfer *rhieni a gofalwyr* sy'n llawn fideos a chanllawiau defnyddiol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am [sut i ddefnyddio Xbox neu Playstation i gael mynediad i Hwb](#).

